

## Prifysgol Abertawe

Nodyn cyfarwyddyd ar Reoli  
Gwastraff WMGN04 – Tuniau a  
chaniau bwyd

<b>Awdur:</b>	Fiona Wheatley
<b>Cymeradwywyd gan:</b>	Fiona Abbott
<b>Dyddiad creu:</b>	09/11/2018

<b>Nodyn Cyfarwyddyd ar Reoli Gwastraff WMGN04</b> <b>Tuniau a chaniau bwyd</b>	
Lleoliad cynhyrchu	Pob ardal
EWC	20-01-04
Math	Gwastraff a reolir nad yw'n beryglus
Dull Gwaredu	Didoli i'w ailgylchu
Math o Fin/Fag	Rhes o bedwar bin/Bag clir

### **Gofynion Dyletswydd Gofal**

Dylai busnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff gymhwyso'r hierarchaeth gwaredu gwastraff i'r holl ffrydiau er mwyn lleiafu maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w waredu. Yn ymarferol, golyga hyn sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddioli cyn ei waredu drwy'r ffrwd gywir.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ddioli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddioli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigion, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr ar wahân i'w gilydd os oes angen annog ansawdd uchel deunyddiau sydd i'w hailgylchu.

Mae'r rhan fwyaf o duniau bwyd a chaniau diodydd wedi'u gwneud o alwminiwm neu ddur sy'n hawdd eu hailgylchu. Mae ailgylchu can alwminiwm yn arbed 96% o'r ynni y mae ei angen i greu can o fwyn ac mae'n cynhyrchu 95% llai o lygredd aer a 97% llai o lygredd dŵr. Gellir ailgylchu alwminiwm dro ar ôl tro heb iddo golli priodweddau. Gellir ailgylchu dur hefyd dro ar ôl tro heb iddo golli priodweddau. Mae gwneud cynhyrchion dur newydd o ddur wedi'i ailgylchu yn hytrach na defnyddio mwyn newydd yn defnyddio 40% yn llai o ddŵr, yn creu 76% yn llai o lygredd dŵr, 86% yn llai o lygredd aer a 97% yn llai o wastraff yn sgil mwyngloddio.

Er bod hyn wedi'i ddsbarthu fel gwastraff nad yw'n beryglus, mae'n ofynnol yn gyfreithlon o dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus i ddioli gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a sicrhau bod yr holl wastraff wedi'i ddsbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus drwy'r ffrwd ar gyfer gwastraff dinesig cyffredinol yn anghywir arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r weithred o beidio â chydymffurfio.

### **Eitemau**

Dylid rhoi tuniau a chaniau bwyd yn y biniau ailgylchu caniau'n unig (fel arfer yn rhan o resi o bedwar/ddau fin gwastraff safonol y Brifysgol).

Ni ddylid gwneud y canlynol o dan **unrhyw** amgylchiadau:

- (a) rhoi tuniau bwyd a chaniau diodydd yn y bin gwastraff cyffredinol – mae'n atal deunydd gwerthfawr rhag cael ei adfer neu ei ailgylchu ac mae opsiynau ar gael

(b) Lle y bo modd, dylid golchi caniau bwyd i leihau maint y gweddillion sy'n cael eu rhoi yn y bin ailgylchu.

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Biniau mewnol

Dylid defnyddio dim ond rhesi o bedwar/ddau fin metel sydd â chaead a bagiau clir i waredu caniau sydd i'w hailgylchu. Ni ddylid defnyddio cynwysyddion personol/o dan eich desg mewn swyddfeydd gan fod hyn yn atal ailgylchu deunyddiau.



Ffigur 1 – rhes o bedwar bin dan do Prifysgol Abertawe

### Biniau Allanol

Dylid defnyddio dim ond rhesi o bedwar/ddau fin metel sydd â chaeadau wrth eu blaenau i waredu caniau i'w hailgylchu. Ni ddylid defnyddio biniau eraill ar gyfer eitemau rhydd.



Ffigur 2 – rhesi o bedwar bin allanol a bin contractwr allanol Prifysgol Abertawe

Caiff bagiau bin clir a gesglir eu rhoi yn y biniau mwy dynodedig (wedi'u darparu gan y contractwr rheoli gwastraff), a leolir mewn cyfadeladau ledled ystadau'r Brifysgol.


### **Cost waredu**

Mae'r gost o waredu'n cael ei hystyried fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, nid oes cost uniongyrchol i unigolion/golegau/Unedau Gwasanaethau Proffesiynol.

### **Labelu**

Gweler templed

**I gael rhagor o arweiniad, e-bostiwch [Estates-Waste@abertawe.ac.uk](mailto:Estates-Waste@abertawe.ac.uk)**



**cans  
caniau**